Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful

**Cyfarwyddiaeth Pobl a Pherfformiad**

**Adran Gwasanaethau Cymdeithasol**

Cyngor Bwrdeistref Sirol
MERTHYR TUDFUL
MERTHYR TYDFIL
County Borough Council

# Talu am Wasanaethau Gofal Seibiant

Diwygiwyd Ebrill 2016

Yn y daflen hon eglurir yr hyn a olygir wrth ofal seibiant a’r taliadau a godir ar gyfer y gwasanaeth hwn.

**Beth yw ystyr Gofal Seibiant?**

Mae gofal seibiant yn un a ddarperir dros dro i bobl sy’n byw gartref fel arfer, er mwyn i’w gofalwyr gael seibiant rhag gofal.

Mae gofalwr yn rhywun sy’n darparu gofal rheolaidd di-dâl i berthynas, ffrind neu gymydog o unrhyw oed, sy’n sâl, neu’n fregus, sydd ag anabledd neu angen iechyd meddwl. Gall y gofal a ddarperir gynnwys cymorth corfforol a/neu emosiynol.

Gofal seibiant yw’r gofal a roddir i un person er lles person arall, sef y gofalwr. Rhaid i’r person sy’n cael y gofal seibiant gydsynio i’r gwasanaeth a gaiff.

**Pa fath o wasanaeth seibiant sydd ar gael?**

Gellir darparu gofal seibiant mewn ystod o wasanaethau a ddyluniwyd i ddiwallu anghenion yr unigolion dan sylw. Cynhelir asesiad ar anghenion y gofalwr, yn ogystal â’r person sy’n cael gofal.

Y Gwasanaethau Seibiant sydd ar gael:

- Gofal mewn cartref preswyl / nyrsio sy’n cael ei redeg gan yr Awdurdod Lleol neu’r Sector Preifat
- Gofal yn eich cartref eich hun

I gael rhagor o wybodaeth am yr asesiad ar eich anghenion chi yn ofalwr neu’n berson sy’n cael gofal cysylltwch â’r ‘Ddesg Dyletswydd’ lle bydd aelod o’r staff sydd wedi cael hyfforddiant yn siarad â chi am eich sefyllfa chi ac yn asesu’ch anghenion. Nid oes tâl ar gyfer asesiad. I siarad â’r Swyddog Dyletswydd cewch chi wneud y canlynol:

- Ffonio’r Ddesg Dyletswydd ar 01685 724507

Cewch chi ddewis rhwng yr awdurdod hwn yn trefnu eich gofal seibiant, neu wneud cais bod eich gofal chi yn cael ei ddarparu trwy daliad uniongyrchol. Ar gyfer taliad uniongyrchol bydd yr awdurdod hwn yn rhoi taliadau rheolaidd i chi er mwyn i chi brynu eich gofal yn uniongyrchol.

Ni fydd yr opsiwn hwn ar gael i chi os oes gennych chi anghenion gofal nyrsio.

Gweler ein taflen ar wahân ynghylch taliadau uniongyrchol.

**Pa ddewisiadau sydd ar gael o ran cartrefi gofal?**

Mae amrywiaeth eang o ddewisiadau ar gael sydd naill ai'n cael eu rhedeg gan yr awdurdod lleol neu'r sector preifat. Rhaid, fodd bynnag, fod y cartref a ddewiswch chi wedi ei gofrestru ar gyfer y math ar ofal sydd ei angen.

Os dewiswch chi gartref nad yw'n cael ei redeg gan yr Awdurdod Lleol, bydd rhaid i ni gadarnhau y bydd y cartref a ddewisir yn derbyn contract safonol yr awdurdod hwn cyn y gellir trefnu eich gofal seibiant chi. Sylwer, fodd bynnag: os dewiswch chi gartref sy'n codi'n fwy na'r uchafswm y mae'r awdurdod yn barod i'w dalu, bydd disgwyl i chi dalu'r gwahaniaeth eich hun neu drwy noddwr trydydd parti, e.e., perthynas.

**Faint o ofal seibiant y galla i ei gael ?**

Bydd maint y seibiant yn dibynnu ar eich asesiad unigol chi a'r effaith y mae eich rôl gofal yn ei chael ar eich iechyd, gweithgareddau cymdeithasol a gwaith neu hyfforddiant yn ogystal ag anghenion y person sy'n cael gofal.

**Faint fydd y gofal seibiant yn ei gostio?**

Y person sy'n cael y gofal seibiant yw'r person sy'n gymwys i dalu am y gwasanaeth. Er mis Ebrill o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 mae ein dull ni o godi am ofal seibiant wedi newid.

Os byddwch chi'n cael gofal seibiant am gyfnod sy'n llai nag 8 wythnos yn olynol cewch chi eich asesu'n ariannol yn yr un modd â phe baech chi'n cael gofal cymunedol a gwasanaethau cymorth o dan ein polisi codi dibreswyl.

Y cyfraniad dyddiol ar gyfer gofal seibiant yw £12.50 y diwrnod. Uchafswm y cyfraniad y gellir ei godi yw £60.00 yr wythnos. Bydd hyn yn cynnwys y cyfraniad a dalwch chi at unrhyw ofal cymunedol a gwasanaethau cymorth.

Mae'r wythnos hon yn rhedeg o ddydd Sul i ddydd Sadwrn. O'r herwydd, os cewch chi 7 niwrnod olynol o ofal seibiant sy'n disgyn dros 2 wythnos godi, codir ar gyfer nifer y diwrnodau yr ydych chi wedi eu cael ym mhob wythnos godi ar wahân.

Os estynnir eich arhosiad mewn cartref gofal a'i fod yn hwy nag 8 wythnos, bydd y modd y codir arnoch yn newid. Ar ôl yr 8 wythnos cewch chi eich asesu'n ariannol o dan ein Polisi Codi Preswyl.

Os oes angen i chi gael arhosiad dros dro mewn cartref gofal ac os gwyddys bod cyfnod y gwneir cais amdano yn hwy nag 8 wythnos ar ddechrau'r gwasanaeth, codir arnoch chi a'ch asesu'n ariannol o dan ein Polisi Codi Preswyl o ddiwrnod cyntaf eich arhosiad ymlaen.

Gweler ein taflen ni am Dalu am Ofal Cymunedol a Chymorth neu Dalu am Ofal Preswyl i gael rhagor o wybodaeth am y broses asesu ariannol.

**Beth yw asesiad ariannol?**

Er mwyn i ni benderfynu faint y bydd angen i rywun ei dalu bob wythnos ar gyfer y gwasanaeth seibiant a gaiff mewn cartref preswyl / nyrsio, byddwn ni'n gofyn iddo roi manylion ei incwm (megis pensiynau, budd-daliadau ac ati) a chynilon. Rhaid darparu tystiolaeth o unrhyw wybodaeth ariannol er mwyn i ni gwblhau'r asesiad yn gywir. Yr awdurdod fydd yn talu'r gwahaniaeth rhwng y cyfraniad a aseswyd sy'n daladwy gan y person sy'n cael y gwasanaeth seibiant a chost lawn y gwasanaeth. Fodd bynnag, mae'r awdurdod yn pennu lefel uchafswm y taliadau wythnosol y bydd yn eu talu i unrhyw gartref.

Caiff y wybodaeth a roddwch chi i ni ei defnyddio yn unig i gyfrif eich cyfraniad wythnosol. Ni chaiff ei roi i rywun arall nad yw'n rhan o'r broses ariannol heb eich caniatâd chi.

I gael rhagor o wybodaeth ynghylch asesiadau ariannol a'r modd y'u cyfrifir; cysylltwch â'r 'Tîm Asesu a Chodi' ar 01685 725069.

**Ble galla i gael rhagor o wybodaeth?**

Os oes angen i chi gael rhagor o wybodaeth cewch chi gysylltu â'r Tîm Asesu a Chodi am help a chyngor ar 01685 725069.

Fel arall, cewch chi geisio cyngor annibynnol gan eich Canolfan Cyngor ar Bopeth leol neu unrhyw fudiad gwirfoddol arall.

**Alla i benodi rhywun i weithredu ar fy rhan i?**

Gallwch, mae gennych chi'r hawl i benodi trydydd parti i weithredu ar eich rhan chi ar gyfer yr holl broses asesu neu ran ohoni. Gall hwn fod yn aelod o'r teulu, ffrind neu berson annibynnol. Dylai fod modd i'r Ganolfan Cyngor ar Bopeth leol eich cynghori chi am wasanaethau eiriol yn eich ardal chi.

I gael rhagor o wybodaeth am fod yn ofalwr gallwch ddod o hyd i daflenni gwybodaeth mewn nifer o fannau lleol. Mae mudiad gwirfoddol lleol o'r enw Rhwydwaith Strategaeth Gofalwyr Merthyr Tudful, ynghyd ag asiantaethau partner, wedi creu Pecyn Gwybodaeth i Ofalwyr. Mae'n ganllaw cyfeiriol i unrhyw un sy'n gweithio gyda gofalwyr, neu i'r rheini sy'n gofalu am rywun.

Mae'r pecyn ar gael mewn amrywiaeth o fannau gan gynnwys swyddfeydd y cyngor, llyfrgelloedd, meddygfeydd, ysbytai lleol. Mae'r wybodaeth hon ar gael ar ffurfiau eraill ac mewn ieithoedd eraill ar gais trwy gysylltu â'r Swyddog Dyletswydd (Ffôn : 01685 724507)